## Rhybudd Gynnig

Mae yna bryder mawr gan drigolion Ceredigion ynglyn a bwriad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i newid darpariaeth ambiwlansys a cherbydau achosion brys yn y Sir.

Mae bwriad gan y Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (ac sydd wedi ei gyflwyno i'r gweithwyr) i gwtogi ar nifer o ambiwlansys o 4 i 2 yn ystod y dydd yng ngorsafoedd Aberteifi ag Aberystwyth, ac i gyfyngu ar y defnydd o Gerbyd Ymateb Cyflym (Rapid Response Vehicle). Mi fydd yr un ambiwlans yng ngorsaf Cei Newydd a un yng ngorsaf Llanbedr Pont Steffan yn parhau.

Mae ambiwlansys yng Ngheredigion yn aml yn gorfod trosglwyddo cleifion allan o'r sir i ysbytau gyda'g arbennigedd mor bell a'r Amwythig a Chaerdydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaeth gogyfer a damweiniau ac achosion brys angenrheidiol ledled y Sir ac sydd ar gael pedair awr ar hugain, saith diwrnod yr wythnos.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar:

- Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru i barhau i gynnal y nifer presennol o ambiwlansys yng Ngheredigion a hefyd Cerbydau Ymateb Cyflym (RRV) ac ychwanegu at y nifer yma i sicrhau dapariaeth digonol i drigolion Ceredigion.
- Ysgrifennu at Eluned Morgan AS, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru gan ofyn iddi ymyrryd gyda Ymddiriedolaeth Gwasanaeth GIG Ambiwlans Cymru i sicrhau nad yw'r newidiadau yma yn cael eu gweithredu.

Cyng Gareth Davies
Cynigydd

Cyng Matthew Woolfall Jones
Eilydd